**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AC
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Mawrth 2017

Annwyl Russell

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi am gyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2016 Horizon 2020 yng Nghymru.

Gyda chronfa ariannol o fwy na €70 biliwn, Horizon 2020 yw rhaglen ymchwil ac arloesi fwyaf erioed yr Undeb Ewropeaidd (UE) ac mae'n cynnig cyfleoedd gwirioneddol i sefydliadau o Gymru gymryd rôl flaenllaw ym meysydd ymchwil ac arloesi. Mae ein Papur Gwyn, 'Diogelu Dyfodol Cymru: Pontio o'r Undeb Ewropeaidd i berthynas newydd ag Ewrop' a gafodd ei lansio ar y cyd, yn nodi'n glir iawn beth yw'r manteision economaidd a chydweithredol a ddaw i Gymru drwy Horizon 2020, a pha mor bwysig fydd hi inni barhau i gymryd rhan yn Horizon 2020 a'r rhaglen a fydd yn ei holynu wedi i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r adroddiad, sydd bellach ar gael yn http://gov.wales/docs/wefo/publications/170327-horizon-annual-cy.pdf, yn nodi sut mae sefydliadau o Gymru wedi perfformio hyd yn hyn o cael cyllid Horizon 2020; mae'n nodi hynt y gwaith o gyflawni ein hamcanion allweddol i sicrhau mwy o lwyddiant; a mae'n rhoi cipolwg ar weithgareddau'r rhaglen yn 2017. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys nifer o enghreifftiau o sefydliadau sydd wedi elwa ar y ffynhonnell ariannol bwysig hon o gyllid yr UE.


Mae'n dda gweld y cynnydd a wnaed yng Nghymru o ran cael cyllid o dan y rhaglen hon sydd mor gystadleuol. Fis Hydref diwethaf, cyrhaeddwyd carreg filltir sylweddol, gyda sefydliadau yng Nghymru yn sicrhau dros €54m o gyllid Horizon 2020.

Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn amlygu llwyddiannau sylweddol eraill, gan gynnwys y ffaith bod nifer y gweithgareddau y mae sefydliadau o Gymru wedi ymgymryd â nhw o dan y rhaglen wedi dyblu, bron, ers yr adroddiad blynyddol diwethaf; lefel uchel o gyfranogi gan fusnesau yng Nghymru; enghreifftiau o weithio ar draws sefydliadau; a defnydd effeithiol o'r

Cronfeydd Strwythurol i helpu i adeiladu’r capasiti y mae ei angen i fanteisio ar ffynonellau ariannol cystadleuol megis Horizon 2020.

Bydd y llwyddiannau hyn yn cael eu dathlu yn ein digwyddiad Horizon 2020 blynyddol a gynhelir yng Nghaerdydd ar 30 Mawrth, a bydd cyfleoedd i drafod ymhellach gyda’n partneriaid er mwyn ein helpu i wneud y gorau o Horizon 2020 yn y misoedd a’r blynyddoedd i ddod.

Yn gwyir



**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government